# Materion eraill

Mae'r canlynol yn nodi'r materion a godwyd yn ein gwaith ers y cyfarfod diwethaf er gwybodaeth i reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.

## Ôl-drafodaeth ar gyfrifon 2009/2010

Nodwyd canlyniadau ein harchwiliad yn 2009/10 i'r Pwyllgor Archwilio yn ein hadroddiad 'Archwilio'r Datganiadau Cyfrifyddu – Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio' ac yn ein Llythyr Blynyddol a gafodd ei gynnwys yn Adroddiad Asesu Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru. Yn dilyn y broses adrodd hon, roedd y swyddogion a ninnau fel ein gilydd yn teimlo bod angen ôl-drafodaeth lawn ar y cyfrifon a'r broses archwilio er mwyn gallu nodi gwersi i'w dysgu i lywio'r broses ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2010/11 ('y cyfrifon').

Rydym wedi cytuno ar yr argymhellion canlynol gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid):

1. Dylai swyddogion baratoi achos busnes wedi'i ddiweddaru i gydnabod y buddsoddiad sydd ei angen i ddiweddaru'r cyfriflyfr cyffredinol a'r systemau cyfrifyddu ategol, gan gynnwys cofrestr asedau sefydlog. Dylai'r achos busnes hwn gael ei ystyried yn ofalus yn unol â phroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor yn erbyn cyfrifoldebau'r Cyngor am gynhyrchu ei gyfrifon a'r angen i sicrhau bod systemau rheoli ariannol cadarn ar waith i gefnogi'r gwaith o ddarparu rhaglen blaenoriaethau fforddiadwy'r Cyngor.
2. Ar gyfer cyfrifon 2010/11 a thu hwnt, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cadw'r nifer lleiaf posibl o ddyddlyfrau â llaw mewn taenlenni rhwng y cyfriflyfr cyffredinol a'r cyfrifon. Dylai trafodion gael eu cofnodi yn y system cyfriflyfr cyffredinol lle y bo'n bosibl cyn i'r cyfrifon gael eu paratoi.
3. Dylai'r Cyngor sicrhau bod cefnogaeth ac ymrwymiad llawn i sicrhau bod swyddi cyllid allweddol gwag yn cael eu llenwi â staff â chymwysterau priodol ar sail barhaol cyn gynted â phosibl. Dylid craffu ar y rhesymau am y diffyg llwyddiant o ran denu ymgeiswyr o safon hyd yma a dylid adolygu'r dull o hysbysebu swyddi er mwyn sicrhau ei fod mor effeithiol â phosibl.
4. Mae angen i'r cyfrifon fod yn flaenoriaeth amlwg i'r Cyngor ac mae angen alinio blaenoriaethau rheolwyr yn unol â hynny. Dylid egluro rolau staff cyfrifyddiaeth er mwyn sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r cyfrifon a phrosesau cyllidebol a dylid ystyried ymrwymiad amser amcangyfrifedig llifau gwaith eraill o ran eu heffaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.
5. Dylai'r Pwyllgor Archwilio ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol gyflwyno adroddiad ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer paratoi'r cyfrifon ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn yr amserlen ar gyfer cynhyrchu'r cyfrifon ar sail barhaus i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio er mwyn codi unrhyw bryderon sydd ganddo ynghylch gallu'r Cyngor i fodloni gofynion rheoleiddio yn y dyfodol.
6. Dylai cofnod o ymholiadau'r archwiliad ac addasiadau a nodwyd gael ei gynnal gennym ni a'r Rheolwr Cyfrifyddiaeth dros dro a dylid cyflwyno adroddiadau i'r Pennaeth Cyllid er mwyn sicrhau bod pob parti yn glir ynghylch cynnydd wrth ddelio ag ymholiadau pan fyddant yn codi ac fel ffordd o gyflwyno adroddiadau ar gynnydd yn ystod yr archwiliad ynghyd ag unrhyw oedi i'r Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, fel y bo'n briodol.

## Paratoi cyfrifon 2010/11

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r rheolwyr Cyllid a'r Rheolwr Cyfrifyddiaeth dros dro wrth i'r Cyngor baratoi i gynhyrchu cyfrifon 2010/11. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae trefniadau ar waith i gynhyrchu'r cyfrifon ond maent yn dibynnu'n drwm ar arbenigedd y Rheolwr Cyfrifyddiaeth dros dro sydd ond wedi bod yn gweithio i'r Cyngor am gyfnod byr. Rydym yn parhau i bryderu ynghylch diffyg cynnydd y Cyngor i baratoi ar gyfer cyflwyno Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae'r 2-3 wythnos nesaf yn allweddol o safbwynt gallu'r Cyngor i gynhyrchu ei gyfrifon mewn fformat IFRS erbyn y terfyn amser, sef 30 Mehefin.

Bydd y gwaith ar gyfrifon terfynol 2010/11 yn dechrau ar 11 Gorffennaf 2011 a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Awst. Bydd hyn yn rhoi amser i ni a'r rheolwyr lunio'r fersiwn terfynol o'r cyfrifon a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio gyda'r nod o sicrhau bod digon o amser i gymeradwyo a chyhoeddi'r

